DAVIES, JOHN ('Taliesin Hiraethog '; 1841 - 94), amaethwr a bardd



Enw: John Davies
Ffugenw: Taliesin Hiraethog
Dyddiad geni: 1841
Dyddiad marw: 94
Plentyn: Alwen Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: amaethwr a bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Natur ac Amaethyddiaeth; Barddoniaeth
Awdur: Enid Pierce Roberts

Ganwyd yn ffermdy Creigiau'r Bleiddiau, ardal Hafod Elwy, tua thair milltir o Gerrig-y-drudion, sir Ddinbych, 2 Hydref 1841. Wedi ysbaid yn ysgol ddyddiol Pentre-llyn-cymer, a gedwid gan weinidog yr Annibynwyr, J. Edwards, ac yna mewn ysgol yng Ngherrig-y-drudion, dan addysg ei gefnder, Huw Huws, dychwelodd i amaethu Creigiau'r Bleiddiau. Ar ôl marw ei fam ymadawodd â'i hen gartref i fod yn feili i C. S. Mainwaring, Llaethwryd, Cerrig-y-drudion. Priodod a mynd i amaethu i fferm Shotton, yn agos i Bwll Gwepra, Sir y Fflint, ond bu farw ei wraig a'i unig fachgen yno. Priodod eilwaith a mynd i fyw i fferm fechan Pen-y-palmant, y Green, ger Dinbych. Ganwyd un ferch o'r briodas hon, Alwen. Digon bregus oedd iechyd John Davies erioed, ac wedi claddu Alwen, yn eneth 17 oed, 27 Tachwedd 1891, dihoenodd yntau. Bu farw 20 Mawrth 1894, a chladdwyd ef ym mynwent yr Eglwys Wen, Dinbych, yn ymyl ' Twm o'r Nant.'

Bardd yr eisteddfod ydoedd. Cymydog iddo yn Hafod Elwy, Elias Jones ('Llew Hiraethog'), Hafod-y-llan, wyr i Robert Davies, Nantglyn, a'i hyfforddodd yng ngherdd dafod ac a gychwynnodd ei ddiddordeb mewn eisteddfodau. Enillodd amryw wobrau am ganu caeth a rhydd, a hefyd wobr am ffug-chwedl, ' *Y Sesiwn yng Nghymru*.' Y mae ei ganu rhydd yn rhagori tipyn ar ei ganu caeth. Ymhlith y gorau o'i waith ceir ' Pryddest Llywarch Hen,' a ' Rhieingerdd Elwy ac Alwen.' Oherwydd iddo ganu cymaint i'r teulu hwnnw edrychid arno ar un adeg fel bardd teulu 'r Foelas.

Awdur

Dr Enid Pierce Roberts

Ffynonellau

Thomas Jones, *Beirdd Uwchaled* (Lerpwl 1930), 63-6

Yr Haul, 1894, 340-1, 361-3

Y Werin, 24 Mawrth 1894

Y Geninen, 1894, 245-8

Y Geninen (Gwyl Dewi), 1895, 28-36

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733388

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Ffrannu

Arddull APA

×

Roberts, E. P., (1953). DAVIES, JOHN ('Taliesin Hiraethog '; 1841 - 94), amaethwr a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-JOH-1841

Copïo'r cliptrwdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government